

Cyfarfod <i>Meeting</i>	Partneriaeth Gwledig Môn/Arloesi Môn		
Lle <i>Venue</i>	Neuadd y Dref Llangefni		
Dyddiad <i>Date</i>	12/7/18	Amser <i>Time</i>	12.30 pm

Presennol:


Cynrychiolaeth o'r Sector Menter:		
Dewi Jones	(DJ)	
Heidi Williams	(HW)	
Nigel Peacock	(NP)	
Cynrychiolaeth o'r Sector Gwirfoddol/Cymunedol		
Jean Baker	(JB)	Ymddiriedolaeth Treftadaeth Ddiwydiannol Porthaethwy
Adrian Roberts	(AR)	Ynni Hafren Gwy
Sian Purcell	(SP)	Medrwn Môn
Cynrychiolaeth o'r Sector Cyhoeddus		
Martin Jardine	(MJ)	Grŵp Llandrillo Menai (Cadeirydd)
Molly Lovatt	(ML)	CNC
Dewi Lloyd	(DL)	Datblygu Economaidd CSYM
Staff Menter Môn		
Dafydd Gruffydd	(DG)	
Jane Davies	(JAD)	
Bethan Frazer-Williams	(BFW)	
Jackie Lewis	(JL)	
Staff Cyngor Sir Ynys Môn		
Eraill yn mynychu		
Delyth Hughes		Cyfieithydd



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
*Isle of Anglesey
Charitable Trust*



Pwynt	Manylion	Gweithredu
1	Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.	
2	<p>Ymddiheuriadau</p> <p>Dr Dylan Evans Mark Gahn Eryl Williams Neville Evans Bryn Jones Edna Jones Mari Faulkner Eifion Jones Neil Johnstone</p>	
3	<p>Datgan diddordeb</p> <p>Dewi Lloyd CSYM - Perfformiad Ynni - Canolfan Hamdden Amlwch</p>	
4	<p>Cofnodion cyfarfod 26/4/18</p> <p>Cytunwyd ar y cofnodion gan NP a'i eilio gan JB</p>	
5	<p>Materion yn codi.</p> <p>Roedd y GGLI wedi gofyn am beidio â chwrdd ar ddydd lau oherwydd materion parcio ond dywedodd y Cadeirydd ei bod yn ymddangos yn iawn.</p>	
6	<p>Adroddiad Cynnydd</p> <p>Yn absenoldeb Eifion Jones, soniodd DG yn fyr am rai pwyntiau allweddol o'r adroddiad cynnydd. Roedd y gwariant ar broffil, ond roedd angen edrych ar allbynnau prosiectau gan eu bod yn ymddangos yn isel. Gofynnodd MJ hefyd am ddadansoddiad pellach o'r rhain fesul blyneddoddedd, a fydd yn rhoi golwg gliriach ar gynnydd.</p> <p>Cronfa Cymunedau Creadigol Dywedodd DG fod 5 cais wedi cael eu hariannu'n llwyddiannus gan yr is-grŵp y mis diwethaf ac roedd y GGLI wedi eu cymeradwyo hefyd:</p> <p>Dehongliad Ynys Lawd</p>	<p>EJ i gynhyrchu gwybodaeth allbynnau wedi'i diweddarau a dadansoddiad pellach yn ôl y gofyn</p>



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
*Isle of Anglesey
Charitable Trust*



	<p>Dehongli Llandyfyrdog a'i gefnwlad Astudiaeth Ddichonoldeb Cwrs Golff Llangefni Swyddog Datblygu Partneriaeth Llangefni Swyddog Datblygu Gorau Môn</p>	
7	<p><u>Cynnig y Prosiect - Tyfu Gyda Mi</u></p> <p>Cyflwynodd JD y cynllun peilot a oedd yn cynnwys gweithio gydag ysgolion i brofi bod dylanwad dechrau'n gynnar o ran dealltwriaeth, tyfu a bwyta cynnyrch cartref yn dylanwadu ar ddewisiadau gyrfa a bywyd. Mae'r diwydiant garddwriaeth wedi dangos diffyg newydd-ddyfodiaid i'r maes hwn, a gallai hyn ddylanwadu ar genedlaethau o gynhyrchwyr i'r dyfodol. Mae hefyd yn cwmpasu themâu trawsbynciol llesiant.</p> <p>Hefyd bu'r cyswllt rhwng y gymuned leol a'r prosiect tyfu ysgolion o gymorth gyda chynaliadwyedd hirdymor prosiectau o'r fath.</p> <p>Mae'r prosiect hwn yn cefnogi ysgolion o fewn y cwricwlwm ac mae ganddo'r potensial i gadw'r gymuned leol yn gysylltiedig â'u hysgol.</p> <p>Cyflwynwyd a chymeradwywyd y peilot gan yr is-grŵp ac roedd yr holl aelodau'n gefnogol - dywedodd MJ y byddai'n dda cyflwyno rhyw elfen o entrepreneuriaeth i'r peilot hwn ac awgrymodd NP bod JD yn cysylltu â Peter Winstanley am drafodaeth.</p> <p>Cymeradwywyd y peilot - £31,290</p>	<p>JD i adrodd yn ôl ar entrepreneuriaeth a'r cyswllt â Peter yn y cyfarfod nesaf</p>



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
*Isle of Anglesey
Charitable Trust*



8	<p>Gwerthuso</p> <p>Esboniodd DG fod Ymgynghoriaeth Wavehill wedi bod yn llwyddiannus wrth dendro am werthusiad tymor canolig a therfynol o LEADER ar gyfer Môn a Gwynedd. Mae hyn i fod i gychwyn ym mis Medi a byddant yn cysylltu ag aelodau'r GGLI, staff a buddiolwyr terfynol i gael eu mewnbwn. Dywedodd JB ei bod hi'n bryderus ynghylch pa mor fanwl fyddai'r gwerthusiad ac a fyddai pobl yn gyfforddus â chael cyfweiliad. Awgrymwyd anfon gwybodaeth ymlaen llaw at bawb a allai gael eu cyfweled i roi gwybod iddynt am y broses a'r hyn y gellir ei ddisgwyl.</p> <p>Cododd MJ fater y SDLI ac awgrymodd y dylid cynnal adolygiad yn unol â'r gwerthusiad canol tymor; roedd yr aelodau'n hapus gyda'r datganiad hwn.</p>	<p>I'w drafod ymhellach yn y cyfarfod GGLI nesaf?</p> <p>EJ i drefnu adolygiad o'r SDLI</p>
9	<p>Ymweliad â'r Ffindir</p> <p>Adroddodd NP am yr ymweliad gan LEADER Môn a Gwynedd i'r Ffindir a bod rhai prosiectau diddorol y gellid eu rhannu gydag Ynys Môn. Dywedodd JL bod ganddi ddau brosiect trawswladol posib, llwybrau yn Lithwania, ac ymweliad astudio ag Awstria i edrych ar ddiwylliant, treftadaeth a'r Economi Las, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd. Roedd gan ML ddiddordeb i ddysgu mwy, yn enwedig am brosiect Lithwania. Roedd yr holl aelodau yn hapus i JL archwilio cyfleoedd ac adrodd yn ôl gydag unrhyw geisiadau am ymweliadau astudio trawswladol ar gyfer y cyfarfod nesaf.</p>	<p>JL i gwblhau ffurflen prosiect ymchwiliol ar gyfer cyfarfod nesaf y GGLI</p>
10	<p>RCDF</p> <p>Cyflwynwyd tri chais RCDF gan Ynys Môn yn y rownd ddiwethaf, a byddai Llywodraeth Cymru'n hoffi sylwadau gan y GGLI ynglŷn â symud ymlaen â'r bid o'r cam Datganiad o Ddiddordeb (EOI). Cyflwynodd DG:</p> <p>Môn Gysylltiedig – darparu cyfleuster band eang i 5 cymuned - gofynnodd ML a oedd hyn yn briodol gan nad oedd y prosiect Gofod Gwyn Teledu wedi symud ymlaen oherwydd bod y cysylltedd nawr ar gael yn yr ardal hon. Ymatebodd DG trwy</p>	<p>EJ i roi sylwadau i LIC</p>



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
Isle of Anglesey
Charitable Trust



	<p>ddweud y byddai Open Reach mewn cyfnod o drafodaethau ar gyfer y cam datblygu nesaf a byddai hyn yn cymryd peth amser.</p> <p>Pentrefi Smart – yn edrych ar ddarparu cyfleoedd i gymunedau fod yn 'SMART' gan gynnwys atebion digidol a thrafnidiaeth. Soniodd JB am y rhwydwaith symudol mewn rhai ardaloedd gwledig, ymatebodd DG yn gadarnhaol, ac oherwydd mai dim ond Datganiad o Ddiddordeb oedd hwn, gellid ei gynnwys ar gyfnod llawn y cais.</p> <p>Canolfan Hamdden Amlwch - adroddodd DLI ar y cynllun peilot hwn a oedd yn cynnwys amnewid y ffynonellau gwres a thrydan presennol gyda ffynonellau adnewyddadwy i gynorthwyo effeithlonrwydd a thorri costau. Gofynnodd ML pam y bwriedir amnewid boeleri nwy gyda boeleri nwy eraill yn hytrach nag edrych ar atebion adnewyddadwy eraill - ymatebwyd bod rhywfaint o waith wedi'i wneud i nodi pam, a byddai'r adroddiad hwn yn cael ei ddsbarthu gyda'r cofnodion.</p>	<p>EJ i gylchredeg adroddiad Adeiladau Cymunedol gyda'r cofnodion</p>
11	<p><u>Adborth Prosiect</u></p> <p><u>Sini Môn</u></p> <p>Mae peilot SiniMôn yn datblygu'n dda gyda gwahanol foddelau busnes yn cael eu hystyried. Erbyn hyn, mae chwe chymuned wedi archebu'r gwasanaeth gyda sefydliadau a busnesau eraill hefyd yn dangos diddordeb, sy'n gwneud cyfanswm o 10. Gellir gwasanaethu busnesau ar gost lawn a gallai hynny mewn amser sybsideiddio'r gwasanaeth i gymunedau; mae yna hefyd botensial i weithio gydag Off y Grid i ymestyn y gwasanaeth.</p> <p><u>TeliMôn</u></p> <p>Mae TeliMôn wedi lansio ac mae'n cynhyrchu oddeutu 2 fideo bob wythnos ac wedi recriwtio dau ddyn camera newydd o dan hyfforddiant. Mae hefyd wedi darparu hyfforddiant golygu i 4 o bobl, ac wedi mynd i mewn i bartneriaeth â Choleg Menai ar gyfer datblygu talent ifanc yn y dyfodol ar Ynys Môn. Mae TeliMôn hefyd wedi sicrhau 9K pellach o'r Gronfa Datblygu</p>	



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
*Isle of Anglesey
Charitable Trust*



	<p>Cynaliadwy i ddarparu rhaglen ychwanegol o ffilmiau sy'n darlunio'r AHNE a chyfleoedd bywyd gwyllt eraill ar Ynys Môn.</p> <p><u>Gwledd Symudadwy</u> Dywedodd JD fod y digwyddiadau gwledd symudadwy â phresenoldeb eithaf da ond bu rhai problemau gyda chynhyrchwyr a chyflenwyr, sydd bellach yn cael eu cywiro.</p> <p><u>Gweithdy Sbwriel</u> Dywedodd BFW fod y gweithdy wedi bod yn llwyddiannus a bod sawl syniad wedi cael ei grybwyll a fydd yn dod yn gynlluniau peilot LEADER yn y dyfodol - gofynnodd ML a oedd yr AHNE yn cymryd rhan gan eu bod yn gweithio ar rai prosiectau eu hunain ac roedd yn bwysig cydweithio - ymatebodd BFW trwy ddweud bod Alun Morgan Owen yn bresennol a bod cydweithredu'n digwydd.</p>	
8	<p>Unrhyw Fater Arall</p> <p>Hysbysodd DLI y cyfarfod fod CSYM wedi derbyn rhywfaint o gyllid gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i'r difrod yn y Marina yng Nghaergybi. Gallai'r arian hwn fod ar gael ar gyfer digwyddiadau</p> <p>Llongyfarchodd MJ y grŵp ar ehangder y prosiectau.</p>	
9	<p>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf</p> <p>10/10/18</p>	
	Gorffen	



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
*Isle of Anglesey
Charitable Trust*

